Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Adroddiad ar Weithredu Deddfwriaeth a Pholisïau Llywodraeth Agored yn ystod 2015

**Cynnwys** **Tudalen**


| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | **3** |
| **Crynodeb** | **4** |
| **Nifer y Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth** | **5** |
| **Categori'r Ceisiwr** | **8** |
| **Prydlondeb yr Ymatebion** | **9** |
| **Canlyniadau'r Ceisiadau a Gwblhawyd** | **9** |
| **Defnydd o Esemptiadau ac Eithriadau** | **11** |
| **Adolygiadau Mewnol** | **13** |
| **Prydlondeb Adolygiadau Mewnol** | **15** |
| **Apeliadau i'r Comisiynydd Gwybodaeth** | **15** |
| **Apeliadau i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf (Hawl i Wybodaeth)** | **15** |
| **Atodiad A: Defnydd o Esemptiadau ac Eithriadau yn ystod 2014** | **16** |

**Cyflwyniad:**

Dyma'r degfed adroddiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i gyhoeddi ar weithredu deddfwriaeth a pholisïau llywodraeth agored. Adroddiad ôl-weithredol yw hwn sy'n disgrifio ein profiadau yn ystod 2015.

Mae'r ystadegau yn yr adroddiad hwn yn ymwneud â'r gwaith o ymdrin â cheisiadau am wybodaeth sydd wedi'i chofnodi o dan Ddeddf Diogelu Data 1998 (DPA), Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (FOIA) a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 (EIR). Mae'r ystadegau dim ond yn cynnwys ceisiadau a gofnodir gan Uned Hawliau Gwybodaeth Llywodraeth Cymru, ac nid ydynt yn cynnwys gwybodaeth a cheisiadau "arferol" a ddosberthir yn ystod eu gwaith o ddydd i ddydd. O ganlyniad, dim ond awgrym o brofiadau a pherfformiad Llywodraeth Cymru yw'r data.

Oni bai y nodir fel arall, casglwyd y data a gyflwynir yn y tablau a'r graffiau drwy'r adroddiad hwn gan ddefnyddio System Olrhain Ceisiadau am Wybodaeth (RFI) Llywodraeth Cymru ar 18 Gorffennaf 2016. Nodwch y talgrynnir canrannau i un pwynt degol mewn meysydd a all arwain at fân anghysondebau amlwg rhwng swm yr eitemau cyfansoddol a'r cyfanswm.

Nid yw'r adroddiad hwn yn cynnwys ceisiadau a dderbyniwyd gan awdurdodau cyhoeddus eraill yng Nghymru.

**Crynodeb:**

Yn 2015:

- Derbyniodd Llywodraeth Cymru 899 o geisiadau am wybodaeth wedi'i chofnodi.
- Bu gostyngiad o 1.6% (o 914 yn 2014) yng nghyfanswm nifer y ceisiadau.
- O'r 899 o geisiadau, cwblhaodd[1] Llywodraeth Cymru 898 (99.9%) ac roedd 1 yn parhau i fod yn weithredol ar adeg llunio'r adroddiad hwn.
- O'r 898 o geisiadau a gwblhawyd, cafodd 745 (83.0%) eu cwblhau o fewn 20 diwrnod gwaith a chafodd 778 (86.6%) eu cwblhau o fewn y terfyn amser statudol[2].
- O'r 898 o geisiadau a gwblhawyd, darparwyd rhywfaint o'r wybodaeth neu'r wybodaeth i gyd mewn ymateb i 580 (64.6%).
- Yr esemptiadau mwyaf cyffredin a gymhwyswyd o dan FOIA oedd: adran 40: gwybodaeth bersonol (26.6%), adran 21: gwybodaeth sydd ar gael i'r ymgeisydd drwy ddulliau eraill (21.1%), ac adran 43: buddiannau masnachol (14.5%).
- Derbyniodd Llywodraeth Cymru gyfanswm o 40 o gwynion (4.4% o'r ceisiadau a dderbyniwyd) yn ymwneud â'i gwaith o ymdrin â cheisiadau am wybodaeth.
- O'r 40 o adolygiadau mewnol, cadarnhawyd y gŵyn mewn 6 achos, cadarnhawyd y gŵyn yn rhannol mewn 7 achos a chadarnhawyd y penderfyniad gwreiddiol mewn 27 achos.
- Ymchwiliodd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth i 5 cwyn[3] (0.6% o geisiadau) a chyhoeddi Hysbysiad o Benderfyniad mewn cysylltiad â 3 ohonynt.
- Apeliwyd 2 Hysbysiad Penderfynu Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf.

[1] Cais wedi'i gwblhau yw cais am wybodaeth wedi'i chofnodi y mae Llywodraeth Cymru wedi'i ateb.
[2] Mae'r terfyn amser statudol yn cynnwys ceisiadau a atebir un ai o fewn 20 diwrnod gwaith neu derfyn amser estynedig a ganiateir.
[3] Diffinnir cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth fel ymchwiliad ffurfiol sydd wedi arwain at Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn cyhoeddi Hysbysiad o Benderfyniad. Ni chaiff ymchwiliadau a ddatrysir yn ffurfiol eu cynnwys yn y ffigyrau hyn.

**Nifer y Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth:**

Derbyniodd Llywodraeth Cymru 899 o geisiadau am wybodaeth wedi'i chofnodi yn 2015. Ers cychwyn y FOIA ar 1 Ionawr 2005, mae nifer y ceisiadau a dderbyniwyd bob blwyddyn wedi amrywio. Roedd gostyngiad o 1.6% yn nifer y ceisiadau a dderbyniwyd yn 2015 o'i gymharu â 2014.


Mae Tabl 1 a Ffigwr 1 isod yn rhoi manylion am gyfanswm blynyddol nifer y ceisiadau am wybodaeth wedi'i chofnodi a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru ers 2005.

Mae Tabl 2 a Ffigwr 2 yn cymharu nifer y ceisiadau a dderbyniwyd bob mis yn 2014 ac yn 2015.

<u>Tabl 1: Cyfanswm nifer y ceisiadau am wybodaeth wedi'i chofnodi a dderbyniwyd 2005-2014</u>

| Blwyddyn | Cyfanswm nifer y ceisiadau a dderbyniwyd | Gwahaniaeth o'r naill flwyddyn i'r llall (%) |
|---|---|---|
| 2005 | 898 | - |
| 2006 | 677 | -24.6 |
| 2007 | 574 | -15.2 |
| 2008 | 638 | 11.1 |
| 2009 | 860 | 34.8 |
| 2010 | 813 | -5.5 |
| 2011 | 853 | 4.9 |
| 2012 | 992 | 16.3 |
| 2013 | 1,102 | 11.1 |
| 2014 | 914 | -17.1 |
| 2015 | 899 | -1.6 |


<u>Ffigwr 1: Cyfanswm nifer y ceisiadau am wybodaeth wedi'i chofnodi a dderbyniwyd 2005-2015</u>



Tabl 2: Nifer y ceisiadau am wybodaeth wedi'i chofnodi a dderbyniwyd bob mis yn ystod 2014 a 2015

| Mis | 2014 | % o'r Cyfanswm | 2015 | % o'r Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Ionawr | 93 | 10.2% | 83 | 9.2% |
| Chwefror | 71 | 7.8% | 81 | 9.0% |
| Mawrth | 71 | 7.8% | 92 | 10.2% |
| Ebrill | 79 | 8.6% | 58 | 6.5% |
| Mai | 85 | 9.3% | 49 | 5.5% |
| Mehefin | 82 | 9.0% | 98 | 10.9% |
| Gorffennaf | 114 | 12.5% | 80 | 8.9% |
| Awst | 55 | 6.0% | 63 | 7.0% |
| Medi | 65 | 7.1% | 65 | 7.2% |
| Hydref | 71 | 7.8% | 79 | 8.8% |
| Tachwedd | 78 | 8.5% | 93 | 10.3% |
| Rhagfyr | 50 | 5.5% | 58 | 6.5% |
| **Cyfanswm** | **914** | **100%** | **899** | **100%** |

Ffigwr 2: Nifer y ceisiadau am wybodaeth wedi'i chofnodi bob mis yn ystod 2014 a 2015




Translation for the above graph:


Ionawr; Chwefror; Mawrth; Ebrill; Mai; Mehefin; Gorffennaf; Awst; Medi; Hydref; Tachwedd; Rhagfyr

Darperir yn Nhabl 3 ddadansoddiad yn ôl portffolio o nifer y ceisiadau am wybodaeth wedi'i chofnodi a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2015.

Tabl 3: Nifer y ceisiadau a dderbyniwyd yn ôl meysydd portffolio Llywodraeth Cymru yn ystod 2015

| Cyfarwyddwr Cyffredinol Maes / Grŵp | 2015 Nifer y Ceisiadau | % y Ceisiadau |
|---|---|---|
| Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus | 144 | 16.0% |
| Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol | 446 | 49.6% |
| Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 108 | 12.0% |
| Swyddfa Prif Weinidog Cymru a Swyddfa'r Cabinet | 201 | 22.4% |
| **Cyfanswm** | **899** | **100%** |

Ffigwr 3: Nifer y ceisiadau a dderbyniwyd yn ôl meysydd portffolio Llywodraeth Cymru yn ystod 2015




Translation for the above chart:
Office of the ... = Swyddfa Prif Weinidog Cymru a Swyddfa'r Cabinet (22.4%)
Education and Public... = Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus (16.0%)
Health and Social... = Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (12.0%)
Economy, Skills... = Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol (49.6%)


**Categori'r Ceisiwr:**

Dros y flwyddyn, roedd ceisiadau gan Aelodau Cynulliad (ACau), y cyfryngau, aelodau staff ac Aelodau Seneddol (ASau) yn cyfrif am 233 (25.9%) o'r 899 o geisiadau a dderbyniwyd. Cofnodwyd y 666 o geisiadau a oedd yn weddill o dan y categori 'Eraill'.

Tabl 4: Ceisiadau a dderbyniwyd gan bob math o geisiwr yn ystod bob chwarter yn 2015

| | Eraill | AC | Y cyfryngau | Aelodau staff | AS |
|---|---|---|---|---|---|
| Chwarter 1 | 197 | 34 | 24 | 0 | 1 |
| Chwarter 2 | 159 | 25 | 18 | 0 | 1 |
| Chwarter 3 | 166 | 24 | 14 | 3 | 1 |
| Chwarter 4 | 144 | 55 | 33 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm 2015** | **666** | **138** | **89** | **3** | **3** |

Ffigwr 4: Ceisiadau a dderbyniwyd gan bob math o geisiwr yn ystod bob chwarter yn 2015




Translation for the above chart:
Quarter = Chwarter
Other = Eraill
AM = AC
Media = Y cyfryngau
Staff = Aelodau staff
MP = AS

**Prydlondeb yr Ymatebion:**

Fel arfer, mae'r FOIA ac EIR yn ei gwneud hi'n ofynnol i gyrff cyhoeddus ymateb i geisiadau ysgrifenedig am wybodaeth o fewn 20 diwrnod gwaith ar ôl eu derbyn, a cheir eithriadau cyfyngedig. Mae'r FOIA yn caniatáu estyniad rhesymol i'r terfyn amser 20 diwrnod gwaith wrth ystyried esemptiad wedi'i bwyso a'i fesur yn ôl buddiannau'r cyhoedd ac mae'r EIR yn caniatáu estyniad o uchafswm o 20 diwrnod gwaith ychwanegol os yw'r cais yn gymhleth ac yn swmpus.

O'r 899 o geisiadau, roedd 898 wedi'u cwblhau (99.9%) ar adeg llunio'r adroddiad. O'r 898 o geisiadau a gwblhawyd, roedd 745 (83.0%) wedi'u cwblhau o fewn 20 diwrnod gwaith ac roedd 778 (86.6%) wedi'u cwblhau o fewn y terfyn amser statudol[4].

**Canlyniad y Ceisiadau a Gwblhawyd:**

Yn Nhablau 5a a 5b, ac yn Ffigurau 5a a 5b, dangosir nifer y ceisiadau a gwblhawyd gan Lywodraeth Cymru yn ystod 2014 a 2015 yn ôl categori cwblhau.


<u>Tabl 5a: Nifer y ceisiadau wedi'u cwblhau a ddangosir yn ôl categori cwblhau yn ystod 2014 a 2015</u>

| Categori Cwblhau | 2014 | % o'r Cyfanswm | 2015 | % o'r Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Darparwyd yr Holl Wybodaeth | 448 | 49.0% | 449 | 50.0% |
| Darparwyd Rhywfaint o'r Wybodaeth | 120 | 13.1% | 131 | 14.6% |
| Ni Ddarparwyd Unrhyw Wybodaeth[5] | 159 | 17.4% | 151 | 16.8% |
| Ni Chedwir Unrhyw Wybodaeth | 173 | 18.9% | 152 | 16.9% |
| Wedi'u tynnu'n ôl | 14 | 1.5% | 15 | 1.7% |
| **Cyfanswm** | **914** | **100%** | **898** | **100%** |

<u>Ffigwr 5a: Nifer y ceisiadau a gwblhawyd a ddangosir yn ôl categori cwblhau yn ystod 2015</u>

[4] Mae'r terfyn amser statudol yn cynnwys ceisiadau a atebwyd un ai o fewn 20 diwrnod gwaith neu o fewn terfyn amser estynedig a ganiateir.

[5] Mae'r categori 'Ni Ddarparwyd Unrhyw Wybodaeth' yn cynnwys gwybodaeth a ddaliwyd yn ôl yn llawn gan ddefnyddio un eithriad neu fwy, a'r ceisiadau hynny a wrthodwyd am fynd y tu hwnt i'r cyfyngiad priodol, ac am eu bod yn geisiadau blinderus neu wedi'u hailadrodd.





Translation for the above chart:
Withdrawn = Wedi'u tynnu'n ôl (1.7%)
All info... = Darparwyd yr Holl Wybodaeth (50.0%)
Some info = Darparwyd Rhywfaint o'r Wybodaeth (14.6%)
No info profided... = Ni Ddarparwyd Unrhyw Wybodaeth (16.8%)
No info held... = Ni Chedwir Unrhyw Wybodaeth (16.9%)

Tabl 5b: Nifer y ceisiadau 'Ni Ddarparwyd Unrhyw Wybodaeth' wedi'u dadansoddi yn ôl categori esemptio

| Categori Cwblhau Ni Ddarparwyd Unrhyw Wybodaeth | 2014 | % o'r Cyfanswm | 2015 | % o'r Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| A12 Mynd y Tu Hwnt i'r Cyfyngiad Priodol | 77 | 48.4% | 65 | 43.0% |
| A14 Blinderus | 7 | 4.4% | 0 | 0.0% |
| A14 Wedi'u hailadrodd | 1 | 0.6% | 3 | 2.0% |
| Gwybodaeth yn dod o dan gategori esemptio arall[6] | 74 | 46.5% | 83 | 55.0% |
| **Cyfanswm** | **159** | **100%** | **151** | **100%** |

Ffigwr 5b: Nifer y ceisiadau 'Ni Ddarparwyd Unrhyw Wybodaeth' wedi'u dadansoddi yn ôl categori esemptio

[6] Mae hyn yn cynnwys ceisiadau lle y daliwyd yr holl wybodaeth yn ôl gan ddefnyddio un esemptiad neu fwy/un eithriad neu fwy a restrir yn y FOIA, EIR 2004 neu DPA ar wahân i a12 'cost cydymffurfio yn fwy na'r cyfyngiad priodol' ac a14 'blinderus neu wedi'u hailadrodd'.




Translation for the above chart:
Other Exemption... = Categori Esemptiad Arall (55.0%)
Exceed Appropriate... = Mynd y Tu Hwnt i'r Cyfyngiad Priodol (43.0%)
Repeated = Wedi'u hailadrodd

**Defnydd o Esemptiadau ac Eithriadau:**

O dan y FOIA, ni all awdurdod cyhoeddus wrthod darparu gwybodaeth sydd ganddo y gofynnir amdani, dim ond os bodlonir y canlynol:

- ystyrir y cais i fod yn flinderus neu wedi'u hailadrodd;
- byddai'r gost o gydymffurfio yn fwy na'r 'cyfyngiad priodol' (£600);
- ni thelir y ffi;
- os yw'r wybodaeth yn dod o dan un neu fwy o'r categorïau esemptio/eithrio a restrir yn y FOIA, EIR 2004 neu'r DPA.

Mae Tabl 6 a Ffigwr 6 yn rhoi manylion am yr esemptiadau a'r eithriadau a gymhwyswyd o leiaf deg gwaith gan Lywodraeth Cymru yn ystod 2015. Gellir gweld rhestr lawn o'r esemptiadau a'r eithriadau yn Atodiad A (nid yw'r ffigyrau yn Nhabl 6 yn dangos nifer y ceisiadau y cymhwyswyd esemptiad a/neu eithriad iddynt gan ei fod yn bosibl cymhwyso mwy nag un esemptiad a/neu eithriad mewn cysylltiad â cheisiadau unigol).

Pan fo Llywodraeth Cymru wedi defnyddio esemptiadau a/neu eithriadau sydd ar gael i atal gwybodaeth, mae esboniadau llawn wedi'u darparu a'u cyhoeddi yn y Cofnod Datgeliadau y gellir ei weld ar wefan Llywodraeth Cymru:
http://gov.wales/about/foi/responses/?skip=1&lang=cy


Yr esemptiadau mwyaf cyffredin a gymhwyswyd oedd er mwyn diogelu gwybodaeth bersonol (adran 40 FOIA), lle'r oedd y wybodaeth ar gael i'r ymgeisydd drwy ddulliau eraill (adran 21 FOIA) ac i amddiffyn buddiannau masnachol pwysig (adran 43 FOIA).

Tabl 6: Defnydd o esemptiadau ac eithriadau yn ystod 2015

| Deddf-Esemptiad[7] | 2015 | % o'r Cyfanswm |
|---|---|---|
| Adran 21 FOIA | 54 | 21.1% |
| Adran 22 FOIA | 20 | 7.8% |
| Adran 29 FOIA | 12 | 4.7% |
| Adran 36 FOIA | 12 | 4.7% |
| Adran 40 FOIA | 68 | 26.6% |
| Adran 42 FOIA | 12 | 4.7% |
| Adran 43 FOIA | 37 | 14.5% |
| Pob esemptiad arall | 41 | 16.0% |
| **Cyfanswm** | **256** | **100%** |

[7] Darperir disgrifiad o'r mater y mae pob esemptiad yn ymwneud ag ef, ar wefan y Comisiynydd Gwybodaeth: https://ico.org.uk/for-organisations/guidance-index/freedom-of-information-and-environmental-information-regulations/

## Ffigwr 6: Defnydd o esemptiadau ac eithriadau yn ystod 2015




Translation for the above graph:

Adran 21 FOIA
Adran 22 FOIA
Adran 29 FOIA
Adran 36 FOIA
Adran 40 FOIA
Adran 42 FOIA
Adran 43 FOIA
Pob esemptiad arall

**Adolygiadau Mewnol:**

Gall ceiswyr ofyn i Lywodraeth Cymru gynnal adolygiad mewnol os: i) nad ydynt yn cytuno â'r penderfyniad i atal yr holl wybodaeth y gofynnir amdani neu rywfaint ohoni; ii) os nad ymdriniwyd â'r cais o fewn 20 diwrnod gwaith; neu iii) os ydynt o'r farn y codwyd ffi ar gam.


Derbyniodd Llywodraeth Cymru 40 o gwynion yn 2015 sy'n cyfateb i 4.4% o geisiadau. Roedd hyn 2.4% yn llai o'i gymharu â 2014. Mae Llywodraeth Cymru wedi cwblhau adolygiad mewnol mewn cysylltiad â phob un o'r 40 o gwynion.

Tabl 7: Nifer y Cwynion (2005-2015)

| Blwyddyn | Cyfanswm nifer y cwynion |
|---|---|
| 2005 | 14 |
| 2006 | 27 |
| 2007 | 22 |
| 2008 | 21 |
| 2009 | 16 |
| 2010 | 33 |
| 2011 | 33 |
| 2012 | 45 |
| 2013 | 51 |
| 2014 | 41 |
| 2015 | 40 |

Ffynhonnell: Cofnodion a gedwir yn ganolog gan Uned Hawliau Gwybodaeth, Llywodraeth Cymru

Ffigwr 7: Nifer y Cwynion (2005-2015)




Tabl 8: Canlyniadau'r adolygiad mewnol ar gyfer 2015

| | Nifer | % o'r Cyfanswm |
|---|---|---|
| Cadarnhawyd y gŵyn | 6 | 15.0% |
| Cadarnhawyd y gŵyn yn rhannol | 7 | 17.5% |
| Cadarnhawyd y penderfyniad gwreiddiol | 27 | 67.5% |
| **Cyfanswm** | **40** | **100%** |

Ffynhonnell: Cofnodion a gedwir yn ganolog gan Uned Hawliau Gwybodaeth, Llywodraeth Cymru

O'r 40 o adolygiadau mewnol, cadarnhawyd y gŵyn mewn 6 achos, cadarnhawyd y gŵyn yn rhannol mewn 7 achos a chadarnhawyd y penderfyniad gwreiddiol mewn 27 o achosion.

Ffigwr 8: Canlyniadau'r adolygiad mewnol ar gyfer 2015




Translation for the above chart:
Complaint upheld = Cadarnhawyd y gŵyn (15.0%)
Complaint partly... = Cadarnhawyd y gŵyn yn rhannol (17.5%)
Original decision = Cadarnhawyd y penderfyniad gwreiddiol (68.5%)

**Prydlondeb yr Adolygiadau Mewnol:**

Ni cheir unrhyw derfyn amser statudol ar gyfer cwblhau adolygiad mewnol. Fodd bynnag, mae'r Comisiynydd Gwybodaeth wedi cyhoeddi canllawiau sy'n nodi y dylid cwblhau adolygiad mewnol o fewn 20 diwrnod gwaith ac mewn achosion eithriadol gellir ymestyn y terfyn amser ar gyfer cwblhau i 40 diwrnod gwaith.

O'r 40 adolygiad mewnol, cwblhawyd 29 (72.5%) o fewn 20 diwrnod gwaith, cwblhawyd 9 (22.5%) o fewn 21 i 40 diwrnod gwaith a chymerodd 2 (5.0%) fwy na 40 diwrnod gwaith i'w cwblhau.

**Apeliadau i'r Comisiynydd Gwybodaeth:**

Os nad yw ceisiwr yn fodlon ag ymateb Llywodraeth Cymru, gall gwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO), sef rheoleiddiwr annibynnol awdurdodau cyhoeddus o ran ymdrin â cheisiadau am wybodaeth. Ar ôl derbyn cwyn, bydd yr ICO yn penderfynu a ddylid ymchwilio a gall yn ddiweddarach gyhoeddi Hysbysiad o Benderfyniad. Hysbysiad o Benderfyniad yw barn derfynol yr ICO ar ba un a yw'r awdurdod cyhoeddus wedi cydymffurfio â'r FOIA neu'r EIR, a pha gamau adferol (os oes un) sydd angen eu cymryd. Ni fydd pob ymchwiliad yn arwain at Hysbysiad o Benderfyniad. Datrysir rhai ymchwiliadau yn anffurfiol.

Yn 2015, ymchwiliodd yr ICO i 5 cwyn[8] (0.6% o geisiadau). O'r 5 ymchwiliad a gwblhawyd, cyhoeddwyd 3 hysbysiad o benderfyniad.

**Apeliadau i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf (Hawl i Wybodaeth):**

Mae'r Tribiwnlys Haen Gyntaf (Hawliau Gwybodaeth) yn gwrando ar apeliadau yn erbyn Hysbysiadau Penderfynu a gyhoeddir gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Yn 2015, cafodd 2 Hysbysiad o Benderfyniad Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth eu hapelio i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf.

[8] Diffinnir cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth fel ymchwiliad ffurfiol a fydd yn arwain at/wedi arwain at Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn cyhoeddi Hysbysiad o Benderfyniad. Ni chaiff ymchwiliadau a ddatrysir yn anffurfiol eu cyfrif yn y ffigyrau hyn.

**Atodiad A: Defnydd o esemptiadau ac eithriadau yn ystod 2015**

Fel yr amlinellir yn yr adroddiad, nid yw'r ffigyrau isod yn dangos nifer y ceisiadau y cymhwysir esemptiad a/neu eithriad atynt gan ei bod hi'n bosibl cymhwyso mwy nag un esemptiad a/neu eithriad yn ymwneud â cheisiadau unigol.

| **Deddf - Esemptiad** | **2015** | **% o'r Cyfanswm** |
|---|---|---|
| DPA Atodlen 7, Paragraff 10 – Braint broffesiynol gyfreithiol | 3 | 1.2% |
| DPA Atodlen 7, Paragraff 2 – Lluoedd arfog | 1 | 0.4% |
| DPA Atodlen 7, Paragraff 4 – Cyflogaeth y goron ac apwyntiadau'r goron neu apwyntiadau gweinidogol | 3 | 1.2% |
| DPA Adran 30 – Iechyd, addysg a gwaith cymdeithasol | 1 | 0.4% |
| EIR 12(4)(d) – Deunydd dal wrthi'n cael ei gwblhau, dogfennau anorffenedig neu ddata anghyflawn | 1 | 0.4% |
| EIR Rheoliad 12(4)(e) – Cyfathrebu mewnol | 2 | 0.8% |
| EIR Rheoliad 12(5)(f) – Buddiannau'r person a ddarparodd y wybodaeth | 1 | 0.4% |
| EIR Rheoliad 13 – Data personol trydydd partïon | 8 | 3.1% |
| FOIA Adran 21 – Gwybodaeth ar gael i'r ymgeisydd drwy ddulliau eraill | 54 | 21.1% |
| FOIA Adran 22 – Gwybodaeth y bwriedir ei chyhoeddi yn y dyfodol | 20 | 7.8% |
| FOIA Adran 28 – Cysylltiadau o fewn y Deyrnas Unedig | 3 | 1.2% |
| FOIA Adran 29 – Yr economi | 12 | 4.7% |
| FOIA Adran 31 – Gorfodi'r gyfraith | 2 | 0.8% |
| FOIA Adran 35 – Llunio polisi'r llywodraeth | 6 | 2.3% |
| FOIA Adran 36 – Ymdrin â materion cyhoeddus yn effeithiol | 12 | 4.7% |
| FOIA Adran 37 – Cyfathrebu gydag Ei Mawrhydi, ac ati ac anrhydeddau | 1 | 0.4% |
| FOIA Adran 38 – Iechyd a Diogelwch | 2 | 0.8% |
| FOIA Adran 40 – Gwybodaeth bersonol | 68 | 26.6% |
| FOIA Adran 41 – Gwybodaeth a ddarparwyd yn gyfrinachol | 7 | 2.7% |
| FOIA Adran 42 – Braint broffesiynol gyfreithiol | 12 | 4.7% |
| FOIA Adran 43 – Buddiannau Masnachol | 37 | 14.5% |
| **Cyfanswm** | **256** | **100%** |